

SL(6)220 – Rheoliadau Addysg mewn Lleoliadau Lluosog (Cymru) 2022

Cefndir a Diben

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cwricwlwm ac yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ar gyfer disgyblion a phlant yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol priodol lunio ac adolygu cynllun ar gyfer y plant hynny a'r disgyblion hynny sy'n cael eu haddysgu mewn mwy nag un lleoliad. Rhaid i'r cynllun nodi'r addysgu a dysgu sydd i'w ddarparu ar gyfer y plentyn neu'r disgybl ym mhob lleoliad, a'r trefniadau asesu a fydd yn gymwys i'r plentyn neu'r disgybl ym mhob lleoliad.

Bydd cychwyn y Rheoliadau hyn yn adlewyrchu'r bwriad i gyflwyno'r cwricwlwm newydd, a gyflwynir yn raddol dros gyfnod o amser fesul grŵp blwyddyn.

Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r term "pennaeth" yn ymddangos yn y Rheoliadau hyn ond nid yw wedi'i ddiffinio. Mae Offerynnau eraill yn y gyfres, megis *Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2022*, yn diffinio'r term "pennaeth" (fel un sydd â'r ystyr a roddir iddo yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996).



Gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio'r anghysondeb yn y dull a ddefnyddir ar draws y gyfres, gan y gallai achosi dryswch i'r darllenydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi Adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno â'i gasgliad. Mae diffiniad rhannol o'r term "head teacher" yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996 i'r perwyl bod "head teacher" yn cynnwys "acting head teacher". Nid yw'r term "acting head teacher" ei hun wedi ei ddiffinio yn Neddf 1996. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai cyfeirio'r darllenydd at y diffiniad rhannol yn adran 579(1) o Ddeddf 1996 wedi bod yn ddefnyddiol i'r darllenydd. Byddwn yn diwygio Rheoliadau 2022 i ymdrin â'r pwynt hwn pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 4 Gorffennaf 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

